Yr angen am heddwch – taflen wybodaeth



Pethau allweddol i'w gwybod am heddwch

Mae meithrin heddwch yn fater brys, heddiw yn fwy nag erioed.

1 Camau atal yn gyntaf

Cred Cymorth Cristnogol er mwyn datrys gwrthdaro mae'n rhaid delio gyda'r rhesymau craidd.

Byddai gweithredu i ddatrys yr argyfwng hinsawdd ac anghydraddoldeb economaidd yn gam mawr tuag at sicrhau heddwch. Ond hefyd, mae angen i ni fuddsoddi mewn ffyrdd o atal gwrthdaro sydd wedi eu targedu ac yn cael eu harwain gan y gymuned.

2 Toriadau llym yng nghyllideb cymorth y DU ar gyfer meithrin heddwch

Hanerwyd cyfran cyllideb cymorth y DU sy'n cael ei gwario ar feithrin heddwch ac atal gwrthdaro yn ystod y deng mlynedd hyd at 2020. Mae toriadau llym i waith atal gwrthdaro mewn llawer o'r gwledydd lle mae Cymorth Cristnogol yn gweithio, fel De Sudan ac Affganistan, wedi tanseilio'r llwybr tuag at heddwch.

3 Gwariant milwrol y DU*

Yn y cyfamser, mae gwariant milwrol y DU yn parhau i fod yn 2% o incwm cenedlaethol gros y DU, ac mae'r DU yn un o allforwyr offer a hyfforddiant milwrol mwyaf y byd. Mae arfau Prydain wedi bod wrth galon rhyfel yn rhai o'r ardaloedd tlotaf yn y byd.

Does dim modd bod yn rym dros heddwch os ydym yn caniatáu i arfau gael eu gwerthu i garfannau rhyfelgar lle gwelir tystiolaeth neu berygl o dorri cyfraith ryngwladol.

4 Gall y Deyrnas Unedig wneud yn well

Yn y pen draw, dydy'r DU ddim wedi gwneud digon i hyrwyddo a meithrin heddwch ac mae'n cyfrannu at barhau rhai o achosion sylfaenol gwrthdaro – i raddau helaeth drwy gasglu llawer o'i chyfoeth ar dynnu adnoddau o wledydd sy'n dioddef gwrthdaro.

Ac eto, fel un o wledydd cyfoethocaf y byd, gyda dylanwad mewn fforymau rhyngwladol fel Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig, mae modd i'r DU gael rôl gadarnhaol yn y gwaith o feithrin byd mwy cyfiawn a heddychlon.

*Enghraifft

Ers 2015, mae Llywodraeth y DU wedi trwyddedu tua £450 miliwn o arfau naill ai'n uniongyrchol i Israel neu i wladwriaethau sy'n cynhyrchu arfau ar gyfer Israel.[1] Mae hyn er gwaethaf pryderon am dorri cyfraith ryngwladol wrth i Israel osod blocâd a bomio Gaza.

[1] caat.org.uk

#TacloTlodi

Rhoi heddwch yn gyntaf

Mae yna fwy o wrthdaro treisgar yn digwydd nawr nag ar unrhyw adeg yn y 30 mlynedd diwethaf. Lle bynnag y mae gwrthdaro treisgar yn digwydd, mae cymunedau'n cael eu dal mewn tlodi trwy gylchoedd o drais ac allgáu.

Beth i alw amdano

Mae Cymorth Cristnogol yn galw ar Lywodraeth y DU i ddefnyddio'i llais, ei harian a'i dylanwad i fod yn rym dros heddwch yn y byd. Er enghraifft, drwy wneud y canlynol:

- Rhoi sylw i'r rhesymau sylfaenol sy'n achosi rhyfel drwy ddatrys anghydraddoldeb economaidd a'r argyfwng hinsawdd.
- Gwario mwy o gyllidebau cymorth ac amddiffyn y DU ar feithrin heddwch.
- Pleidleisio dros heddwch yn y Cenhedloedd Unedig.
- Rhoi'r gorau i werthu arfau i lywodraethau neu grwpiau sy'n torri cyfraith ryngwladol neu hawliau dynol.

Menywod yn ymgynnull yng nghynhadledd heddwch Cyngor Eglwysi De Sudan a Cymorth Cristnogol.

Astudiaeth achos

Mae'r astudiaeth achos, sef De Sudan, yn un o wledydd ieuengaf y byd. Eleni, bydd y wlad yn cynnal ei hetholiadau cyntaf ers ennill annibyniaeth.

Mae'r wlad yn dioddef llawer yn sgil yr argyfwng hinsawdd a llawer o wrthdaro. Mae hyn wedi gorfodi cymunedau i symud o gwmpas gan achosi argyfyngau o newyn dro ar ôl tro, a gwneud y llwybr at heddwch yn anoddach.

Mae Cyngor Eglwysi De Sudan (SSCC) yn un o bartneriaid allweddol Cymorth Cristnogol. Mae'r Cyngor wedi chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o adfer heddwch ar lefel leol a chenedlaethol trwy hwyluso deialog rhwng cymunedau.

Mae Cymorth Cristnogol yn galw ar Lywodraeth y DU i gefnogi'r gwaith o ddarparu arian ar gyfer mentrau sy'n atal gwrthdaro ac yn meithrin heddwch dan arweiniad y gymuned, fel y rhai sy'n cael eu rhedeg gan SSCC.

Fel aelod o'r llywodraeth neu o'r wrthblaid, mae gan eich Aelod Seneddol ran i'w chwarae. Cysylltwch â'ch Aelod Seneddol heddiw.

Am ragor o wybodaeth:
Darllenwch faniffesto Cymorth Cristnogol yn llawn – caid.org.uk/manifesto

E-bost: campaigns@christian-aid.org

cymorth cristnogol

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o'r ACT Alliance. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif cwmni 5171525. Nodau masnach Cymorth Cristnogol yw enw a logo Cymorth Cristnogol. Argraffwyd ar ddeunyddiau o goedwigoedd a reolir yn gyfrifol yn unig. © Cymorth Cristnogol Gorffennaf 2024 Llun: Cymorth Cristnogol/ Moi Kenyi